Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales
hefcw

# Adroddiad Rheoleiddiol Blynyddol CCAUC

## 2017/18

Noddir gan **Lywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

www.hefcw.ac.uk
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd | This document is also available in English

## Cynnwys

**Rhagair** ........ 2
**Adran 1 – Cyflwyniad** ........ 3
**Adran 2 – Cynlluniau Mynediad a Ffioedd** ........ 5
- **2.1 Cyflwyniad** ........ 5
- **2.2 Datblygu prosesau rheoleiddiol cyn y cyfnod adrodd yn ôl.** ........ 5
- **2.3 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl (2017/18)** .... 8
- **2.4 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau** ........ 11
- **2.5 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd** .... 12

**Adran 3 – Ansawdd Addysg** ........ 13
- **3.1 Cyflwyniad** ........ 13
- **3.2 Datblygu prosesau rheoleiddiol cyn y cyfnod adrodd yn ôl** ........ 13
- **3.3 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl** ........ 14
- **3.4 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau** ........ 16
- **3.5 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd** .... 17

**Adran 4 – Materion Ariannol Sefydliadau a Reoleiddir** ........ 18
- **4.1 Cyflwyniad** ........ 18
- **4.2 Datblygu prosesau rheoleiddiol cyn gweithredu** ........ 18
- **4.3 Cyflawni swyddogaethau yn 2017/18** ........ 18
- **4.4 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau** ........ 19
- **4.5 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd** .... 21

**Adran 5 – Datganiad o Ymyriad** ........ 22
**Adran 6 – Datganiad Sicrwydd** ........ 23

## Rhagair

Mae'n bleser gennyf ddarparu'r rhagair ar gyfer yr adroddiad rheoleiddiol blynyddol cyntaf, yn rhoi cyfrif am y cyfnod rhwng 1 Awst 2017 a 31 Gorffennaf 2018, ar ran y Cyngor. Mae'r Cyngor a'i is-bwyllgorau perthnasol wedi craffu ar yr adroddiad ac mae'n datgan sut rydym wedi ymarfer ein swyddogaethau fel y nodir yn Neddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (Deddf 2015).

Mae'r Ddeddf yn datgan ei bod yn ofynnol i CCAUC newid ei ddull o weithredu wrth weithio gyda'r sefydliadau yng Nghymru yr oedd yn eu cyllido yn unig yn flaenorol, ond y mae'n eu rheoleiddio bellach hefyd. Wedi dweud hynny, mae ein gweledigaeth ar gyfer addysg uwch yn aros yr un fath: *Addysg uwch gynaliadwy, hygyrch a rhagorol yn rhyngwladol yng Nghymru.*

Mae'n bwysig ein bod yn glir ein bod yn rheoleiddio gyda'r bwriad o atal methiant sefydliadol, nid cynyddu gallu cystadleuol mewn marchnad addysg uwch. Un nod rheoleiddiol allweddol yw darparu addysg uwch gynaliadwy yn y tymor hir yng Nghymru heb amharu ar allu sefydliadau i ddiwallu anghenion Cymru heddiw.

Mae ein sancsiynau ymyrryd rheoleiddiol yn gallu bod yn rhai difrifol felly mae'n bwysig ein bod hefyd yn dibynnu ar fecanweithiau eraill i fodloni disgwyliadau rheoleiddiol Gweinidogion Cymru. Mae gwaith partneriaeth yn allweddol yn hyn o beth.

Wrth ddatblygu'r system reoleiddiol newydd yng Nghymru, rydym wedi gweithio'n agos gyda'r sefydliadau rydym yn eu rheoleiddio a'u cyrff cynrychioliadol, gan ymgynghori â hwy i ddeall effaith ein prosesau ar sefydliadau er mwyn eu galluogi i sicrhau cydbwysedd rhwng gallu bodloni'r gofynion rheoleiddiol heb roi baich materion a fydd yn effeithio ar eu cynaliadwyedd yn y tymor hir arnynt. Mae sicrhau'r cydbwysedd hwn yn parhau'n waith ar droed a byddwn yn ceisio gweithio gyda sefydliadau a reoleiddir a'u cyrff cynrychioliadol yn ystod y blynyddoedd i ddod i fireinio'r prosesau hyn ymhellach.

Mae gwaith partneriaeth gyda myfyrwyr yn parhau wedi'i ymgorffori yn yr hyn rydym yn ei wneud. Rydym yn gweithio'n agos ag NUS Cymru, gan eu cynnwys mewn ymgynghoriadau yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael eu cynrychioli ar is-bwyllgorau perthnasol y Cyngor. Hefyd, ac yn bwysig, mae Llywydd NUS Cymru yn cael ei wahodd i fod yn arsylwr ar y Cyngor er mwyn sicrhau bod myfyrwyr yn cael eu hystyried ar bob lefel yn ein penderfyniadau.

Mae'r Cyngor wedi newid yn ystod y cyfnod hwn, nid yn unig o ran ei aelodaeth, ond hefyd o ran cyfansoddiad ei is-bwyllgorau. Rydym wedi sefydlu pwyllgor statudol ar gyfer Asesu Ansawdd a Phwyllgor Rheoleiddio newydd. Mae cylch gwaith ein Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi newid hefyd er mwyn adlewyrchu ein rôl reoleiddio. Mae hyn yn gwella ein hatebolrwydd ac yn cynnig cyfle i aelodau pwyllgor allanol ddarparu sicrwydd ychwanegol i'r Cyngor bod ei swyddogaethau rheoleiddiol yn cael eu gweithredu'n effeithiol.

Yn ystod y pedair blynedd ers pasio'r Ddeddf rydym wedi gweld newidiadau arwyddocaol yn y tirlun addysg uwch, nid dim ond yng Nghymru ond hefyd yn y Deyrnas Unedig. Bydd newid yn parhau os neu pan fydd y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ac yn datblygu perthynas newydd gyda gweddill y byd. Bydd CCAUC yn ystyried yr amgylchedd hwn wrth reoleiddio yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.



**David Allen OBE, Cadeirydd**

## Adran 1 – Cyflwyniad

1.1 Cafodd Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 (y Ddeddf) gydsyniad brenhinol ar 12 Mawrth 2015, gan wella rôl Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) fel rheoleiddiwr. Daeth y Ddeddf, a ategir gan chwe chyfres o reoliadau, i rym yn raddol yn ystod cyfnod pontio, a ddaeth i ben gyda'r Ddeddf yn dod i rym yn llawn ar 1 Awst 2017.

1.2 Mae'r Ddeddf yn datgan dyletswyddau penodol i CCAUC yn y meysydd canlynol:

- Terfynau ffioedd myfyrwyr,
- Gwella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch,
- Ansawdd addysg, a
- Materion ariannol.

1.3 Mae'n ofynnol i sefydliadau a reoleiddir o dan y Ddeddf gydymffurfio â chyfarwyddiadau CCAUC yn y meysydd hyn. Caiff ymreolaeth sefydliadol ei ddatgan yn glir yn y Ddeddf ac mae dyletswyddau a phwerau ymyrryd CCAUC wedi'u cyfyngu i'r meysydd hynny sydd wedi'u datgan yn y Ddeddf yn unig.

1.4 Sefydlir pwerau CCAUC i gyllido sefydliadau gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Nid yw'r pwerau a'r camau gweithredu a roddir ar waith o dan y ddeddfwriaeth hon oddi mewn i gwmpas yr adroddiad hwn.

1.5 Un o'r disgwyliadau sy'n ofynnol gan CCAUC yw ei fod yn darparu i Weinidogion Cymru adroddiad blynyddol ar sut mae wedi ymarfer ei swyddogaethau yn unol â'r Ddeddf ar ddiwedd pob cyfnod adrodd yn ôl. Yr adroddiad hwn yw'r cyntaf i ni ei gyflwyno o dan y gofyniad hwn a bydd yn berthnasol i'r cyfnod adrodd yn ôl rhwng 1 Awst 2017 a 31 Gorffennaf 2018. Hefyd, bydd yr adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth am y gweithgareddau rydym wedi'u rhoi ar waith cyn y cyfnod adrodd yn ôl er mwyn datblygu ein prosesau ar gyfer gweithredu ein swyddogaethau fel y nodir yn y Ddeddf. Bydd swyddogaethau sydd wedi cael eu hymarfer ar ôl 31 Gorffennaf 2018 ond sy'n berthnasol i gynlluniau mynediad a ffioedd 2017/18 yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau diweddarach.

1.6 Bydd ein hadroddiad yn cael ei gyflwyno yn unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru. Y disgwyliadau a nodir yn y cyfarwyddyd yw bod yr adroddiad blynyddol yn cynnwys y canlynol:

- Esboniad o sut mae CCAUC wedi cyflawni ei swyddogaethau o dan:
  a) Adran 7 – cymeradwyo cynlluniau mynediad a ffioedd,
  b) Adran 15 – monitro a gwerthuso cydymffurfiaeth ac effeithiolrwydd cynlluniau mynediad a ffioedd,
  c) Adran 17 – asesu ansawdd yr addysg a ddarperir gan neu ar ran sefydliadau a reoleiddir, ac
  d) Adran 31 – monitro cydymffurfiaeth â'r Cod Rheolaeth Ariannol.

- Canlyniadau'r gweithgareddau yr ymgymerir â hwy gan CCAUC wrth gyflawni'r swyddogaethau a restrir uchod. Dylai hyn gynnwys crynodeb o'r canlynol:
  a) ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd, eu cymeradwyo a'u gwrthod;
  b) cydymffurfiaeth y sector a reoleiddir â therfynau ffioedd a gofynion cyffredinol cynlluniau mynediad a ffioedd sydd wedi'u cymeradwyo;
  c) yr adolygiadau asesu ansawdd a gynhelir a chanlyniadau'r adolygiadau hynny; a

d) cydymffurfiaeth y sector a reoleiddir â’r Cod.

- Manylion am unrhyw fethiannau ar ran sefydliadau a reoleiddir i gydymffurfio â gofynion y system reoleiddiol ac achosion lle mae CCAUC wedi defnyddio ei swyddogaethau ymyrryd o dan:
  a) adran 11 – cyfarwyddiadau ad-dalu a chydymffurfiaeth;
  b) adran 13 – cyfarwyddiadau mewn perthynas â methu cydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun mynediad a ffioedd cymeradwy;
  c) adran 19 – cyfarwyddiadau mewn perthynas ag ansawdd annigonol;
  d) adran 20 – mesurau eraill mewn perthynas ag ansawdd annigonol;
  e) adran 33 – cyfarwyddiadau mewn perthynas â methu cydymffurfio â’r Cod;
  f) adran 34 – mesurau eraill mewn perthynas â methu cydymffurfio â’r Cod;
  g) adran 37 – hysbysiad o wrthod cymeradwyo cynllun mynediad a ffioedd newydd;
  h) adran 38 – dyletswydd CCAUC i dynnu cymeradwyaeth i gynllun mynediad a ffioedd yn ôl os nad yw sefydliad a reoleiddir yn bodloni gofyniad adran 2(3)[1] mwyach; ac
  i) adran 39 – pŵer CCAUC i dynnu cymeradwyaeth i gynllun mynediad a ffioedd yn ôl;

  gan gynnwys manylion y camau gweithredu mae CCAUC wedi’u rhoi ar waith i ddatrys y methiant rheoleiddiol dan sylw a’r cynnydd a wnaed gan y sefydliad a reoleiddir wrth roi’r camau gweithredu angenrheidiol ar waith; a

- Datganiad sicrwydd sy’n cynnwys trosolwg o gydymffurfiaeth y sector a reoleiddir â’r system reoleiddiol sydd wedi’i datgan yn Neddf 2015 ac yn tynnu sylw at unrhyw feysydd sy’n peri pryder neu risg.

1.7 Mae’r adroddiad wedi cael ei strwythuro yn dair prif bennod i adrodd yn ôl yn erbyn y meysydd hynny y mae Gweinidogion Cymru’n disgwyl iddynt gael sylw; cynlluniau mynediad a ffioedd, ansawdd addysg a materion ariannol. Hefyd bydd penodau pellach ar ddatblygu’r datganiad o ymyriad ac, ar wahân, datganiad sicrwydd ar ein cydymffurfiaeth â’r system reoleiddiol.

1.8 Drwy gydol yr adroddiad hwn byddwn yn cadarnhau a fu unrhyw fethiannau ar ran sefydliadau a reoleiddir i gydymffurfio â’r system reoleiddiol. Rydym wedi gweithredu mewn tair ffordd eang er mwyn gweld a fu unrhyw fethiannau o ran cydymffurfiaeth. Dyma’r tair ffordd o weithredu:

- Hunan-adrodd gan sefydliadau a reoleiddir ar sail ad hoc neu drwy gylchoedd adrodd yn ôl wedi’u cynllunio,
- Cwynion a dderbynnir drwy system gwynion newydd CCAUC sydd wedi’i sefydlu i wella ei rôl reoleiddio, a
- Gwaith monitro CCAUC, fel monitro ffurfiol drwy ymgysylltu â sefydliadau a reoleiddir, trafodaethau gyda chyrff allanol eraill neu fonitro systemau data.

Esbonnir y ffyrdd hyn o weithredu os yw hynny’n berthnasol ac yn ôl yr angen drwy gydol yr adroddiad.

[1] Mae Adran 2 (3) Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 yn datgan bod rhaid i ymgeisydd cynllun mynediad a ffioedd fod yn sefydliad yng Nghymru sy’n darparu addysg uwch a rhaid iddo fod yn elusen.

## Adran 2 – Cynlluniau Mynediad a Ffioedd

### 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae'n ofynnol i bob sefydliad yng Nghymru sy'n dymuno cael ei reoleiddio gan CCAUC fod â chynllun mynediad a ffioedd sydd wedi'i gymeradwyo gan CCAUC. Mae bod yn sefydliad a reoleiddir yn galluogi i fyfyrwyr cymwys sy'n astudio cyrsiau israddedig llawn amser a TAR SAC (Statws Athro Cymwysedig) yn y sefydliad hwnnw gael cymorth myfyrwyr Cymru. Mae cynlluniau mynediad a ffioedd yn datgan lefelau ffioedd y ddarpariaeth israddedig lawn amser a TAR SAC ar gyfer y flwyddyn academaidd mae'r cynllun yn berthnasol iddo, ac ymrwymiadau i wella cyfleoedd cyfartal yn ogystal â hybu addysg uwch. Wrth gyflwyno cynllun mynediad a ffioedd, rhaid i sefydliad ddangos ei fod yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol cysylltiedig â sefydliad a reoleiddir, sef y rhai a restrir isod:

- mae'n sefydliad,
- mae yng Nghymru yn llwyr neu yn bennaf,
- mae'n darparu addysg uwch,
- mae'n elusen,
- mae'n hyfyw yn ariannol,
- mae'n cael ei reoli'n dda yn ariannol, ac
- mae'n darparu addysg uwch.

2.1.2 Mae'r bennod hon yn datgan sut mae CCAUC wedi cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â chynlluniau mynediad a ffioedd hyd at 31 Gorffennaf 2018 gan gynnwys:

- Datblygu ei brosesau ar gyfer cynlluniau mynediad a ffioedd cyn y cyfnod adrodd yn ôl,
- Cymeradwyo neu wrthod cynlluniau mynediad a ffioedd,
- Sicrhau cydymffurfiaeth â therfynau ffioedd perthnasol, a
- Monitro cydymffurfiaeth â chynlluniau mynediad a ffioedd a gwerthuso eu heffeithiolrwydd.

### 2.2 Datblygu prosesau rheoleiddiol cyn y cyfnod adrodd yn ôl.

2.2.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn datgan y prosesau rheoleiddiol a ddatblygwyd ac a weithredwyd yn ystod y cyfnod pontio.

<u>Datblygu cyfarwyddyd ar gyfer ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd 2017/18</u>

2.2.2 Cafodd CCAUC ei rymuso i gymeradwyo neu wrthod cyflwyniadau cynlluniau mynediad a ffioedd cyn blwyddyn academaidd 2017/18. Er mwyn galluogi i ddarparwyr gyflwyno ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd 2017/18 datblygwyd dogfen gyfarwyddyd gennym i ddarparu eglurder am ein disgwyliadau ar gyfer cyflwyniadau cynlluniau mynediad a ffioedd.

2.2.3 Dechreuodd CCAUC ddrafftio'r cyfarwyddyd yn hwyr yn 2015, gyda phwerau CCAUC i dderbyn a gwrthod ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd yn dod i rym o fis Ionawr 2016 ymlaen.

2.2.4 Mae gwaith CCAUC yn gweithredu proses y cynlluniau mynediad a ffioedd wedi ystyried ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), gan gynnwys yr egwyddor cynaliadwyedd, y nodau a'r ffyrdd o weithio. Hefyd mae

cynlluniau mynediad a ffioedd yn cyfrannu at gydymffurfiaeth CCAUC â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus, o gofio am y gofyniad i gynlluniau mynediad a ffioedd gefnogi cyfle cyfartal a grwpiau a dangynrychiolir mewn addysg uwch, gan gynnwys unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig.

2.2.5 Seiliwyd y cyfarwyddyd drafft ar drafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, y cyngor cyfreithiol a gafodd CCAUC, ac ymgynghori anffurfiol â sefydliadau sy'n dymuno cael eu rheoleiddio a rhanddeiliaid perthnasol fel NUS Cymru, Prifysgolion Cymru a Cholegau Cymru.

2.2.6 Cyhoeddwyd cyfarwyddyd ffurfiol gan Weinidogion Cymru i CCAUC ar eu disgwyliadau ar gyfer cynlluniau mynediad a ffioedd ym mis Ionawr 2016 ac, ar ôl cyhoeddi'r cyfarwyddyd hwnnw, aethom ati i ymgynghori ar ein cyfarwyddyd ym mis Chwefror 2016. Arweiniodd hyn at gyhoeddi dogfen gyfarwyddyd ddiwygiedig ym mis Ebrill 2016, yn gwahodd sefydliadau yng Nghymru i wneud cais am gynlluniau mynediad a ffioedd ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18.

2.2.7 Fel sail i gynllunio mynediad a ffioedd, ym mis Ebrill 2016, cyhoeddodd CCAUC gyfarwyddyd, ar ffurf cylchlythyr W16/13HE, ar ôl ymgynghori, ar drefniadau partneriaeth rhwng darparwyr allanol a sefydliadau a reoleiddir yng Nghymru.

Ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd 2017/18

2.2.8 Derbyniwyd deg o geisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd 2017/18 ddiwedd mis Mai 2016 gan wyth prifysgol a dau goleg addysg bellach. Trafodwyd proses ymgeisio'r cynlluniau mynediad a ffioedd gyda sefydliad ychwanegol ond ni chyflwynwyd cais ffurfiol.

2.2.9 Cwblhawyd dadansoddiad cychwynnol CCAUC o'r ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd fel sail i adborth ddiwedd mis Mehefin 2016. Ymgymerwyd ag ailadrodd rhwng ymgeiswyr a CCAUC drwy gydol mis Mehefin tan ddiwedd mis Gorffennaf, yn dilyn proses fanwl o ddadansoddi yn erbyn meini prawf a gofynion a ddiffiniwyd ymlaen llaw gan CCAUC er mwyn sicrhau gwelliannau gofynnol i'r cynlluniau cyn eu cymeradwyo. Cymeradwywyd y deg cyflwyniad ar gyfer cynlluniau mynediad a ffioedd 2017/18 gennym ddechrau mis Awst 2016.

2.2.10 Roedd gwelliannau'n ofynnol er mwyn sicrhau bod y cynlluniau mynediad a ffioedd yn dangos eu bod yn bodloni gofynion cyffredinol y cynlluniau mynediad a ffioedd, fel y nodir yn y ddeddfwriaeth, ac yn dangos uchelgais priodol i wella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch.

2.2.11 Drwy gymeradwyo'r cynlluniau mynediad a ffioedd, roeddem yn sicr bod y sefydliadau a reoleiddir ar gyfer 2017/18 fel a ganlyn:

- yn sefydliadau,
- wedi'u lleoli yng Nghymru,
- yn darparu addysg uwch,
- yn elusennau,
- yn hyfyw yn ariannol,
- yn cael eu rheoli'n dda yn ariannol,
- yn darparu addysg uwch safonol,
- yn bwriadu codi lefelau ffioedd oddi mewn i'r terfynau ffioedd uchaf a ganiateir gan y rheoliadau, ac

- wedi ymrwymo i wella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch.

2.2.12 Roedd yn ofynnol i sefydliadau gyhoeddi ar eu gwefannau, o fewn wythnos i dderbyn cymeradwyaeth CCAUC, adrannau penodol o'r cynlluniau ac eithrio'r wybodaeth reoleiddiol a ddarparwyd i CCAUC yn gyfrinachol.

Amrywiad i gynlluniau mynediad a ffioedd 2017/18

2.2.13 Fis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd CCAUC gyfarwyddyd ar amrywio cynllun mynediad a ffioedd cymeradwy. Mae'r cyfarwyddyd yn darparu gwybodaeth am wneud cais i CCAUC am wneud newidiadau i gynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy sy'n berthnasol i faterion sy'n cynnwys lefelau ffioedd, darpariaeth a ddarperir ar ran sefydliad a reoleiddir, targedau, cyfrannau buddsoddiad, a gweithgareddau. Mae'r cyfarwyddyd yn ystyried Canllawiau Llywodraeth Cymru i CCAUC ar gynlluniau mynediad a ffioedd sy'n cadarnhau bod rhaid i sefydliadau wneud cais i CCAUC am gymeradwyo newidiadau i gynllun pan mae'r cynllun cymeradwy mewn grym. Dim ond os ceir cymeradwyaeth ysgrifenedig gan CCAUC y gellir gwneud amrywiad i gynllun cymeradwy.

2.2.14 Cyflwynodd naw o sefydliadau geisiadau am amrywio cynlluniau mynediad a ffioedd 2017/18. Roedd y ceisiadau'n ymwneud yn bennaf â diweddaru partneriaethau academaidd oedd wedi cael eu datblygu ers i gynlluniau 2017/18 gael eu cymeradwyo gan CCAUC. Cymeradwywyd pob cais am amrywiad yn dilyn proses o ddadansoddi gan CCAUC gan ofyn am dystiolaeth ategol bellach pan oedd angen.

Datblygu cyfarwyddyd ar gyfer ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd 2018/19

2.2.15 Cyn drafftio cyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd 2018/19, cynhaliodd CCAUC gyfarfodydd â Llywodraeth Cymru ac, ar wahân, â sefydliadau cynrychioliadol, gan gynnwys Prifysgolion Cymru, Colegau Cymru ac NUS Cymru.

2.2.16 Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fyddai'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru ar gyfer cynlluniau 2018/19 yn newid.

2.2.17 Yn dilyn y trafodaethau hyn, ym mis Mawrth 2017, cynhaliodd CCAUC seminar ymgynghori ar gyfer sefydliadau a reoleiddir, i adolygu proses 2017/18, ystyried prosesau monitro cynlluniau mynediad a ffioedd 2017/18, ymgynghori ar broses amrywiad 2017/18 ac i fod yn sail i broses ymgeisio cynlluniau mynediad a ffioedd 2018/19.

2.2.18 Mae nodiadau a chyflwyniadau seminar ymgynghori digwyddiad mis Mawrth 2017 ar gael ar wefan CCAUC.

2.2.19 Cyhoeddodd CCAUC adolygiad o gynlluniau mynediad a ffioedd 2017/18 ar ffurf adborth cyffredinol (Medi 2016) fel sail i ddatblygu cynlluniau mynediad a ffioedd yn y dyfodol ac i ddechrau nodi meysydd o arferion diddorol.

2.2.20 Cyhoeddodd CCAUC gyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd 2018/19 yng nghylchlythyr W17/06HE (Mawrth 2017), yn gwahodd ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd erbyn canol mis Mai 2017. Ni newidiodd meini prawf asesu CCAUC ar gyfer y cynlluniau yn 2018/19, i roi rhywfaint o sefydlogrwydd yn yr ail flwyddyn o geisiadau.

Cymeradwyo cynlluniau mynediad a ffioedd 2018/19

2.2.21 Fel yn 2017/18, derbyniwyd deg o geisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd perthnasol i 2018/19 gan wyth o brifysgolion a dau goleg addysg bellach. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau newydd, ond cyfarfu CCAUC â chynrychiolwyr o sawl coleg addysg bellach oedd yn ystyried cyflwyno cais yn y dyfodol, i drafod disgwyliadau CCAUC ar gyfer ymgeiswyr cynlluniau mynediad a ffioedd.

2.2.22 Cwblhawyd dadansoddiad manwl CCAUC o'r ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd, yn erbyn meini prawf a gofynion a ddiffiniwyd ymlaen llaw, ddiwedd mis Mehefin 2017, gan ystyried y gofynion rheoleiddiol, gan gynnwys ffocws a chynnwys cynlluniau. Ddechrau mis Gorffennaf, darparwyd adborth i ymgeiswyr yn erbyn y meini prawf asesu a gyhoeddwyd (gweler cylchlythyr W16/12HE, paragraffau 119 -121), er mwyn sicrhau gwelliannau gofynnol i'r cynlluniau cyn eu cymeradwyo. Gwahoddodd adborth CCAUC i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau diwygiedig yn ystyried dadansoddiad CCAUC, erbyn canol mis Gorffennaf. Ymgymerwyd ag ailadrodd rhwng ymgeiswyr a CCAUC drwy gydol mis Mehefin tan ddiwedd mis Gorffennaf. Cymeradwyodd CCAUC ddeg o gynlluniau 2018/19 ddechrau mis Awst 2017.

2.2.23 Roedd gwelliannau'n ofynnol er mwyn sicrhau bod y cynlluniau mynediad a ffioedd yn dangos yn llawn eu bod yn bodloni gofynion cyffredinol y cynlluniau mynediad a ffioedd, fel y nodir yn y ddeddfwriaeth, ac yn dangos uchelgais priodol i wella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch.

2.2.24 Drwy gymeradwyo'r cynlluniau mynediad a ffioedd, roeddem yn sicr bod y sefydliadau a reoleiddir ar gyfer 2017/18 fel a ganlyn:

- yn sefydliadau,
- wedi'u lleoli yng Nghymru,
- yn darparu addysg uwch,
- yn elusennau,
- yn hyfyw yn ariannol,
- yn cael eu rheoli'n dda yn ariannol,
- yn darparu addysg uwch safonol,
- yn bwriadu codi lefelau ffioedd oddi mewn i'r terfynau ffioedd uchaf a ganiateir gan y rheoliadau, ac
- wedi ymrwymo i wella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch.

2.2.25 Roedd yn ofynnol i sefydliadau gyhoeddi ar eu gwefannau, o fewn wythnos i dderbyn cymeradwyaeth CCAUC, adrannau penodol o'r cynlluniau ac eithrio'r wybodaeth reoleiddiol a ddarparwyd i CCAUC yn gyfrinachol.

## 2.3 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl (2017/18)

2.3.1 Mae'r adran hon yn yr adroddiad yn datgan sut aethom ati, ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym, i gyflawni ein holl swyddogaethau mewn perthynas â chynlluniau mynediad a ffioedd. Mae hyn yn cynnwys cymeradwyo ac amrywiadau i gynlluniau mynediad a ffioedd, yn ogystal â sicrhau cydymffurfiaeth â lefelau ffioedd a gofynion cyffredinol cynllun mynediad a ffioedd.

Amrywiad i gynlluniau mynediad a ffioedd 2018/19

2.3.2 Cyflwynodd pedwar sefydliad geisiadau am amrywio cynlluniau mynediad a ffioedd 2018/19. Roedd y ceisiadau'n ymwneud yn bennaf â diweddaru partneriaethau academaidd oedd wedi cael eu datblygu ers i gynlluniau 2018/19 gael eu cymeradwyo gan CCAUC. Cymeradwywyd pob cais am amrywiad.

Datblygu cyfarwyddyd ar gyfer ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd 2019/20

2.3.3 Roedd llythyr cylch gwaith 2017-18 (paragraff 4.6) a dderbyniwyd ddiwedd mis Mawrth 2017 yn dweud ei bod yn ofynnol i CCAUC:
*'gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gwmpasu ac amserlennu'n llawn oblygiadau ymateb y Llywodraeth i'r meysydd canlynol - … cryfhau cynlluniau mynediad a ffioedd'*. Ystyriodd CCAUC y gofyniad hwn yn y broses gynllunio nesaf: 2019/20. Bydd CCAUC yn dangos tystiolaeth o'r camau gweithredu a roddwyd ar waith mewn adroddiadau yn y dyfodol.

2.3.4 Cyn drafftio cyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd 2019/20, cynhaliodd CCAUC gyfarfodydd â Llywodraeth Cymru ac, ar wahân, â sefydliadau cynrychioliadol, gan gynnwys Prifysgolion Cymru, Colegau Cymru ac NUS Cymru.

2.3.5 Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fyddai'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru yn 2016 yn newid ar gyfer cynlluniau 2019/20.

2.3.6 Yn dilyn y trafodaethau hyn, ym mis Rhagfyr 2017, cynhaliodd CCAUC seminar ymgynghori ar gyfer sefydliadau a reoleiddir, i ystyried prosesau monitro cynlluniau 2017/18 ac adrodd yn ôl ar effeithiolrwydd, i adolygu proses 2018/19 ac i ymgynghori ar broses 2019/20 ac ystyried ffi 2017/18. I gryfhau cynlluniau 2019/20, ystyriodd yr ymgynghoriad oblygiadau'r gofynion ansawdd a'r Fframwaith Asesu Ansawdd, trefniadau partneriaeth a chynnwys myfyrwyr mewn prosesau cynllunio. Darparodd dau sefydliad gyflwyniadau ar weithredu prosesau cynlluniau mynediad a ffioedd effeithiol er mwyn cyfrannu at wella arferion.

2.3.7 Mae nodiadau a chyflwyniadau seminar ymgynghori digwyddiad mis Rhagfyr 2018 ar gael ar wefan CCAUC.

2.3.8 Cyhoeddodd CCAUC gyfarwyddyd cynlluniau mynediad a ffioedd 2019/20 yng nghylchlythyr W18/03HE (Ionawr 2018), yn gwahodd ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd ddiwedd mis Mawrth 2018. Ni newidiodd meini prawf asesu CCAUC ar gyfer cynlluniau yn 2019/20, i roi rhywfaint o sefydlogrwydd yn y drydedd flwyddyn o geisiadau.

Cymeradwyo cynlluniau mynediad a ffioedd 2019/20

2.3.9 Fel yn 2018/19, derbyniwyd deg o geisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd perthnasol i 2019/20 gan wyth o brifysgolion a dau goleg addysg bellach.

2.3.10 Cwblhawyd dadansoddiad CCAUC o'r ceisiadau cynlluniau mynediad a ffioedd, yn erbyn meini prawf a gofynion a ddiffiniwyd ymlaen llaw, ddiwedd mis Ebrill 2018, gan ystyried y gofynion rheoleiddiol, gan gynnwys ffocws a chynnwys cynlluniau. Ddechrau mis Mai, darparwyd adborth i ymgeiswyr yn erbyn y meini prawf asesu a gyhoeddwyd (gweler cylchlythyr W18/03HE, paragraff 145), er mwyn sicrhau

gwelliannau gofynnol i'r cynlluniau cyn eu cymeradwyo. Gwahoddodd adborth CCAUC i ymgeiswyr gyflwyno ceisiadau diwygiedig yn ystyried dadansoddiad manwl CCAUC o'r cynlluniau. Ymgymerwyd ag ailadrodd rhwng ymgeiswyr a CCAUC drwy gydol mis Mehefin tan ddiwedd mis Gorffennaf. Cymeradwyodd CCAUC y deg cynllun.

2.3.11 Roedd gwelliannau'n ofynnol er mwyn sicrhau bod y cynlluniau mynediad a ffioedd yn dangos yn glir eu bod yn bodloni gofynion cyffredinol y cynlluniau mynediad a ffioedd, fel y nodir yn y ddeddfwriaeth, ac yn dangos uchelgais priodol i wella cyfleoedd cyfartal a hybu addysg uwch.

2.3.12 Drwy gymeradwyo'r cynlluniau mynediad a ffioedd, roeddem yn sicr bod y sefydliadau a reoleiddir ar gyfer 2017/18 fel a ganlyn:

- yn sefydliadau,
- wedi'u lleoli yng Nghymru,
- yn darparu addysg uwch,
- yn elusennau,
- yn hyfyw yn ariannol,
- yn cael eu rheoli'n dda yn ariannol,
- yn darparu addysg uwch safonol,
- yn bwriadu codi lefelau ffioedd oddi mewn i'r terfynau ffioedd uchaf a ganiateir gan y rheoliadau, ac
- wedi ymrwymo i wella cyfle cyfartal a hybu addysg uwch.

2.3.13 Roedd yn ofynnol i sefydliadau gyhoeddi, ar eu gwefannau, o fewn wythnos i dderbyn cymeradwyaeth CCAUC, adrannau penodol o'r cynlluniau ac eithrio'r wybodaeth reoleiddiol a ddarparwyd i CCAUC yn gyfrinachol.

Cydymffurfio â lefelau ffioedd

2.3.14 Dim ond lefelau ffioedd ar gyfer darpariaeth israddedig lawn amser a TAR SAC sydd wedi'u datgan mewn cynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy y gall sefydliadau a reoleiddir eu codi. Ar ôl i gynlluniau mynediad a ffioedd gael eu cymeradwyo rydym yn rhannu manylion y lefelau ffioedd cymeradwy gyda'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr. Mae lefelau ffioedd yn amrywio.

2.3.15 Rydym wedi monitro'r lefelau ffioedd ar gyfer y ddarpariaeth israddedig lawn amser a TAR SAC sydd wedi'i nodi yng nghynlluniau mynediad a ffioedd 2017/18 drwy ddadansoddi data'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr a'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch, y cwynion a dderbyniwyd a'r trafodaethau gyda sefydliadau a reoleiddir. Mae'r prosesau hyn ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â lefelau ffioedd cymeradwy 2017/18 wedi parhau ar ôl diwedd y cyfnod adrodd yn ôl a bydd hyn yn cael ei ddatgan yn yr adroddiad blynyddol nesaf.

Monitro cydymffurfiaeth â gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau mynediad a ffioedd

2.3.16 Nid yw monitro a gwerthuso cynhwysfawr ar gynlluniau mynediad a ffioedd yn bosib nes bod y flwyddyn academaidd wedi'i chwblhau. Gan fod y cyfnod adrodd yn ôl ar gyfer yr adroddiad rheoleiddiol blynyddol cyntaf hwn yn cyd-fynd â blwyddyn academaidd y cynlluniau mynediad a ffioedd cyntaf, bydd rhagor o adrodd yn ôl ar y monitro ar gydymffurfiaeth â'r gofynion cyffredinol a gwerthuso effeithiolrwydd cynlluniau mynediad a ffioedd 2017/18 yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

## 2.4 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau

2.4.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn datgan y canlyniadau o fod wedi cyflawni swyddogaethau rheoleiddiol fel maent yn berthnasol i gynlluniau mynediad a ffioedd. Bydd hyn yn cynnwys canlyniadau cymeradwyo cynlluniau mynediad a ffioedd a'n gwaith yn monitro cydymffurfiaeth â lefelau ffioedd a gofynion cyffredinol y cynlluniau mynediad a ffioedd.

Canlyniadau cymeradwyo cynlluniau mynediad a ffioedd

2.4.2 Mae'r holl gynlluniau mynediad a ffioedd cymeradwy wedi cynnwys grwpiau sydd wedi'u datgan fel rhai a dangynrychiolir mewn addysg uwch. Dyma'r grwpiau a fydd yn cael eu cefnogi gan y buddsoddiad cyfleoedd cyfartal sydd wedi'i ymrwymo yn y cynlluniau mynediad a ffioedd. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys y canlynol:

- pobl o bob oedran sy'n byw yn nalgylchoedd Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a arferai gael ei gweithredu gan Lywodraeth Cymru,
- pobl o bob oedran sy'n byw yng nghwintel isaf yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Is ym Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru,
- pobl o bob oedran sy'n byw yn ardaloedd cyfranogiad isel UK POLAR3,
- plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal,
- pobl â chyfrifoldebau gofalu,
- pobl â nodweddion gwarchodedig,
- pobl o deuluoedd incwm isel, a
- pobl sy'n dymuno astudio addysg uwch cyfrwng Cymraeg.

2.4.3 Drwy gymeradwyo'r tair cyfres gyntaf o gynlluniau mynediad a ffioedd, mae sefydliadau a reoleiddir wedi ymrwymo i roi cyfran o incwm y ffioedd hyfforddi tuag at y canlynol:

- hybu a diogelu mynediad teg i addysg uwch, gan gynnwys adnabod unigolion o gefndiroedd difreintiedig sydd â'r potensial mwyaf,
- denu a chadw myfyrwyr a darpar fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir, gan gynnwys myfyrwyr o gefndiroedd llai breintiedig, myfyrwyr ag anableddau a myfyrwyr o grwpiau o leiafrifoedd ethnig,
- gwella dyheadau addysgol a datblygu sgiliau sy'n paratoi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir ar gyfer astudio addysg uwch,
- cefnogi a chynyddu cyfradd cadw a chwblhau myfyrwyr, yn enwedig y rhai o ardaloedd cyfranogiad isel, plant sy'n derbyn gofal, unigolion sy'n gadael gofal a gofalwyr,
- gwella profiad myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir o addysg uwch, gan gynnwys gweithgareddau i hybu profiad rhyngwladol,
- darparu gwybodaeth i fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir cyn ac yn ystod eu cyrsiau,
- darparu cefnogaeth academaidd a lles o ansawdd uchel i fyfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir,
- cefnogi myfyrwyr o grwpiau a dangynrychiolir i symud ymlaen i gyflogaeth neu astudiaethau pellach,
- sicrhau ymgysylltu mwy effeithiol â chyrff preifat, cyhoeddus a gwirfoddol a chymunedau yng Nghymru,
- gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu, o ran ansawdd y profiad i fyfyrwyr,
- cryfhau cyflogadwyedd graddedigion Cymru,

- hybu addysg uwch yng Nghymru yn fwy effeithiol yn rhyngwladol,
- gwella'r ddarpariaeth o addysg uwch gynaliadwy, a
- codi ymwybyddiaeth o werth addysg uwch ymhlith darpar ddysgwyr.

Canlyniadau monitro cydymffurfiaeth â lefelau ffioedd

2.4.4 Hyd yma nid ydym yn ymwybodol o unrhyw achosion lle mae sefydliad a reoleiddir wedi codi ffioedd ar fyfyrwyr sy'n uwch na'r rhai a nodir yn y cynlluniau mynediad a ffioedd y cytunwyd arnynt ar gyfer 2017/18.

2.4.5 Yn 2017/18, derbyniodd CCAUC 12 cwyn ond nid oedd unrhyw gŵyn yn ymwneud â chydymffurfio â lefelau ffioedd.

Canlyniadau monitro cydymffurfiaeth â gofynion cyffredinol cynlluniau mynediad a ffioedd

2.4.6 Hyd yma nid ydym yn ymwybodol o unrhyw achosion lle nad yw sefydliad a reoleiddir wedi cydymffurfio â gofynion cyffredinol cynllun mynediad a ffioedd y cytunwyd arno ar gyfer 2017/18.

2.4.7 Yn 2017/18, derbyniodd CCAUC 12 cwyn ond nid oedd unrhyw gŵyn yn ymwneud â chydymffurfio â gofynion cyffredinol y cynlluniau mynediad a ffioedd.

## 2.5 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd

2.5.1 Nid oes unrhyw sefydliad a reoleiddir wedi methu cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio cysylltiedig â chynllun mynediad a ffioedd. O'r herwydd, nid oes unrhyw achosion o ymyrryd i'w nodi.

## Adran 3 – Ansawdd Addysg

### 3.1 Cyflwyniad

3.1.1 O dan Ddeddf 2015, mae'n ofynnol i CCAUC asesu neu wneud trefniadau ar gyfer asesu ansawdd yr addysg a ddarperir yng Nghymru gan, neu ar ran, pob sefydliad a reoleiddir. Mae Deddf 2015 yn rhoi pwerau i CCAUC weithredu ynghylch darpariaeth sy'n annigonol, neu'n debygol o ddatblygu i fod yn annigonol, gyda digonolrwydd yn cael ei ddiffinio fel diwallu anghenion rhesymol y rhai sy'n derbyn yr addysg neu'n dilyn y cwrs.

3.1.2 Efallai y bydd CCAUC yn cyhoeddi neu'n cymeradwyo cyfarwyddyd ynghylch gwella neu gynnal ansawdd yr addysg a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau a reoleiddir, ac ynghylch meini prawf ar gyfer asesu ansawdd. Cyn cyhoeddi neu gymeradwyo cyfarwyddyd o'r fath, rhaid i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad a reoleiddir ac unrhyw rai eraill fel sy'n briodol ym marn CCAUC. Hefyd mae'n ofynnol i CCAUC sefydlu Pwyllgor Asesu Ansawdd (PAA) i gynghori ar ei swyddogaethau perthnasol i ansawdd o dan Ddeddf 2015. Mae ein PAA wedi rhoi cyngor i'r Cyngor ar faterion sydd wedi'u datgan yn yr adroddiad hwn sy'n berthnasol i ansawdd.

3.1.3 Mae'r bennod hon yn datgan sut rydym wedi cyflawni ein swyddogaethau ansawdd yn ystod y cyfnod pontio ac adrodd yn ôl, hyd at 31 Gorffennaf 2018, yn ogystal â chanlyniadau'r swyddogaethau hynny i benderfynu a yw sefydliadau a reoleiddir wedi cydymffurfio â'r system reoleiddiol.

### 3.2 Datblygu prosesau rheoleiddiol cyn y cyfnod adrodd yn ôl

3.2.1 Daeth pwerau CCAUC yng nghyswllt ansawdd i rym yn ystod y cyfnod pontio wrth i'r Ddeddf gael ei gweithredu. Mae'r adran hon yn datgan y prosesau ansawdd a ddatblygwyd yn ystod y cyfnod pontio hwnnw.

3.2.2 O dan Ddeddf 2015, mae'n ofynnol i CCAUC ymgynghori â chorff llywodraethu pob sefydliad a reoleiddir, ac unrhyw bersonau eraill fel maent yn gweld yn briodol, cyn cyhoeddi neu gymeradwyo cyfarwyddyd mewn perthynas ag ansawdd.

3.2.3 Yn ystod y cyfnod pontio, cynhaliodd CCAUC ymgynghoriadau ar nifer o swyddogaethau i'w cyflawni drwy Ddeddf 2015. Roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- rhoi mwy o bwyslais ar rôl cyrff llywodraethu ar gyfer darparu sicrwydd am ansawdd a safonau, ac
- adolygiad sicrwydd ansawdd allanol i'w gynnal gan yr Asiantaeth Sicrwydd Ansawdd (QAA).

3.2.4 Yn ystod y cyfnod hwn, sefydlodd CCAUC weithdrefnau a phrosesau newydd amrywiol hefyd. Manylir ar y rhain isod.

- Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru: roedd hwn yn darparu ymgynghoriad ar strwythur y Fframwaith arfaethedig, a gyflwynwyd wedyn yn 2017/18;
- sicrwydd ansawdd allanol gan sefydliadau a reoleiddir: roedd hyn yn datgan y gofynion am adolygiadau sicrwydd ansawdd allanol, y mae'n rhaid eu comisiynu bob chwe blynedd o leiaf,

- y fethodoleg i’w defnyddio ar gyfer adolygu Addysg Drawswladol: roedd hyn yn cytuno’n ffurfiol ar fethodoleg y QAA ar gyfer adolygu Addysg Drawswladol, ac
- y meini prawf ar gyfer asesu ansawdd, y dull asesu ansawdd ac ymchwilio i faterion perthnasol i ansawdd a safonau: roedd hyn yn cytuno’n ffurfiol i ddefnyddio’r Cod Ansawdd, defnyddio dull Adolygiad Addysg Uwch: Cymru ar gyfer adolygu sefydliadau, a defnyddio methodoleg y QAA er mwyn ymchwilio i bryderon.

3.2.5 Cynigiwyd y Fframwaith Asesu Ansawdd i ddarparu i CCAUC fecanweithiau i sicrhau bod ansawdd addysg, neu gwrs addysg, a ddarperir gan, neu ar ran, sefydliadau a reoleiddir yn diwallu anghenion y rhai sy’n ei dderbyn. Datblygwyd y fframwaith i gyd-fynd â Deddf 2015 ac mae’n ystyried newidiadau rheoleiddiol. Fel rhan o’r Fframwaith, treialodd CCAUC ymweliad adolygu sicrwydd ansawdd tair blynedd, i ystyried a oedd digon o sicrwydd yn sail i ddatganiadau sicrwydd blynyddol y corff llywodraethu ynghylch ansawdd.

3.2.6 Daeth y PAA i gymryd lle Is-Grŵp Asesu a Gwella Ansawdd blaenorol y Pwyllgor Profiad Myfyrwyr, Addysgu ac Ansawdd. Mae’r PAA yn bwyllgor statudol gan y Cyngor ac felly mae ei rôl yn hanfodol o ran gweithrediaeth y Cyngor. Mae ei rôl yn cynnwys y canlynol:

- ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y Cyngor mewn perthynas ag asesu ansawdd sy’n codi o’r Ddeddf,
- parhau i adolygu’r trefniadau ar gyfer asesu ansawdd addysg uwch ac, os yw hynny’n briodol, gweithio gydag eraill i sefydlu trefniadau newydd neu ddiwygiedig,
- ystyried unrhyw faterion a gyfeirir i sylw’r Pwyllgor gan y Cyngor, ac
- adrodd yn ôl yn flynyddol i’r Cyngor ar ansawdd y ddarpariaeth.

## 3.3 Cyflawni swyddogaethau yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl

3.3.1 Yn yr adran hon byddwn yn datgan sut mae ein swyddogaethau ansawdd wedi cael eu cyflawni yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18. Yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl, rydym wedi ymgynghori ar ddulliau newydd o weithredu, a’u datblygu, yn ogystal â gweithredu’r dulliau presennol, i sicrhau bod ein swyddogaethau ansawdd yn cael eu cyflawni’n effeithiol.

Fframwaith Asesu Ansawdd

3.3.2 Mae CCAUC wedi ymarfer nifer o swyddogaethau mewn perthynas ag asesu ansawdd a risg i ansawdd yn 2017/18. Cyhoeddwyd y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru (y Fframwaith) ym mis Mawrth 2018. Mae’r Fframwaith yn cynnwys y canlynol:

- trefniadau Porth ar gyfer sefydliadau sy’n dymuno cael eu rheoleiddio,
- trefniadau ar gyfer darparwyr sefydledig: roedd hyn yn cynnwys craffu blynyddol ar ddata gan CCAUC; y corff llywodraethu’n darparu datganiadau sicrwydd blynyddol; gofyniad i sefydliadau gomisiynu Adolygiad Sicrwydd Ansawdd Allanol bob chwe blynedd o leiaf; CCAUC yn cynnal ymweliadau sicrwydd tair blynedd mewn perthynas â darparu ansawdd; a gweithio mewn partneriaeth â’r corff o fyfyrwyr,
- ymyriad teilwredig ond cyflym: cyflwyno proses gan CCAUC ar gyfer delio â chwynion; a defnyddio Pwyllgor Asesu Ansawdd CCAUC i gynghori ar y cwynion neu’r pryderon a fynegwyd,

- safonau gradd a chymhared: roedd hyn yn cynnwys gwaith ledled y DU ar ddeall algorithmau gradd; gwaith ar chwyddiant/gwelliant gradd; a gwaith ar arholi allanol, datblygiad proffesiynol a graddnodi, ac
- enw da yn rhyngwladol: roedd hyn yn cynnwys cytuno ar ddulliau ledled y DU drwy gyfrwng Pwyllgor Sefydlog y DU ar gyfer Asesu Ansawdd; ac ymweliadau adolygu trawswladol.

3.3.3 Mae'r Fframwaith yn sail i'r broses cynllunio mynediad a ffioedd flynyddol a phroses adolygu risg sefydliadol CCAUC.

3.3.4 Fis Mehefin 2018, cynhaliodd CCAUC ddigwyddiad i lansio'r Fframwaith. Roedd llawer o gynrychiolwyr o sefydliadau a reoleiddir yn bresennol yn y digwyddiad, a phartïon eraill sydd â diddordeb. Cadeiriodd Cadeirydd y PAA y digwyddiad a chafwyd cyfraniadau gan aelodau eraill y PAA. Mae crynodeb o'r digwyddiad a'r cyflwyniadau ar gael ar wefan CCAUC.

3.3.5 Dywed y fframwaith ei bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu sefydliadau a reoleiddir gyflwyno datganiadau sicrwydd ansawdd blynyddol. Y cyflwyniadau ar gyfer 2017/18 oedd y flwyddyn gyntaf ar gyfer y gofyniad hwn, ac felly roedd yn ymarfer peilot. Dywedodd y PAA bod y cyflwyniadau ar gyfer 2017/18 yn foddhaol.

Adolygiadau allanol

3.3.6 Comisiynwyd y QAA gan Brifysgolion Cymru i gynnal yr adolygiadau sicrhau a gwella ansawdd allanol i fodloni gofynion y Fframwaith. Pwrpas yr adolygiadau hyn oedd bodloni budd y cyhoedd a sicrhau bod y safonau ansawdd yn bodloni'r gofynion sylfaen. Yn 2017/18, cynhaliwyd un adolygiad o sefydliad a reoleiddir gan y QAA. Roedd y canlyniad yn foddhaol.

3.3.7 Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar adolygiad ansawdd allanol Porth ym mis Awst 2017 a chyflwynwyd ymatebion ym mis Hydref 2017. Cynigiwyd yr adolygiad yn unol â dull y DU o ddatblygu porth unigol ar gyfer mynediad i addysg uwch a gyllidir yn gyhoeddus. Yng Nghymru, byddai hyn yn cael sylw drwy drefniadau ar gyfer dynodiad awtomatig a phenodol i gael mynediad i gymorth myfyrwyr yng nghyd-destun Deddf 2015.

3.3.8 Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn gefnogol i gynnig CCAUC ac yn fodlon y byddai'r broses yn cynnig sicrwydd i CCAUC am ansawdd addysg uwch yng Nghymru. Byddai'r broses yn cydnabod y tirlun addysg uwch nodedig mewn addysg bellach yng Nghymru. Nodwyd y dylai'r ail adolygiad ailbrofi'r safonau sylfaen er mwyn darparu sicrwydd bod y ddarpariaeth addysg uwch yn gynaliadwy, gyda chofnod clir o gyflawni yn dystiolaeth o hynny, ac yn bodloni safonau sylfaen y DU ar gyfer ansawdd addysg uwch. Felly mae'r broses yn cynnwys ffocws ar ymgysylltu â myfyrwyr.

Adolygiadau tair blynedd

3.3.9 Fel rhan o gyfrifoldebau CCAUC o dan y Fframwaith, mae CCAUC yn cynnal adolygiad tair blynedd o bob sefydliad a reoleiddir ac yn adrodd yn ôl ar ei ganfyddiadau. Mae hyn yn canolbwyntio ar y datganiadau sicrwydd ansawdd blynyddol sy'n cael eu llofnodi gan y corff llywodraethu. Mae pob sefydliad sy'n cael ei adolygu'n cael cyfle i adolygu'r adroddiad am fanwl gywirdeb cyn iddo gael

ei ystyried gan y PAA a'i ddefnyddio gan Gyngor CCAUC fel rhan o'i Ymweliad Sefydliadol.

3.3.10 Cyhoeddodd CCAUC ddogfen i ddarparu eglurder ynghylch pwrpas yr adolygiadau tair blynedd a'r adroddiad cysylltiedig ar ganlyniadau, ynghyd ag esboniad na fyddai canlyniadau adolygiad tair blynedd yn sbarduno pwerau statudol CCAUC yn uniongyrchol, ond yn sail i brosesau eraill CCAUC, a allai arwain at ymyriad statudol.

3.3.11 Yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl, cynhaliwyd dau adolygiad tair blynedd o sefydliadau a reoleiddir gan CCAUC.

Cwynion

3.3.12 Adolygwyd y data ar gwynion myfyrwyr am sefydliadau yng Nghymru i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol yn 2016 a 2017 gennym. Roedd aelodau'r PAA yn fodlon gyda'r diweddariad a ddarparwyd a rhoddwyd cyngor ar bwysigrwydd canolbwyntio ar nifer y cwynion a wnaed yn uniongyrchol i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol, yn hytrach nag ar nifer y llythyrau Cwblhau Gweithdrefnau, a allai adlewyrchu arferion anghyson rhwng sefydliadau. Dywedodd CCAUC y bydd cynnydd efallai yn nifer y cwynion a dderbynnir yn 2018 a 2019 oherwydd y gweithredu diwydiannol diweddar mewn rhai sefydliadau yng Nghymru.

3.3.13 Fis Mehefin 2017, cynhaliodd CCAUC ymgynghoriad ar weithdrefnau ar gyfer delio â chwynion a chyhoeddwyd y canlyniadau ym mis Hydref 2017. Gofynnodd yr ymgynghoriad am farn ar weithdrefnau CCAUC ar gyfer delio â chwynion yn erbyn sefydliadau ar ôl gweithredu Deddf 2015. Adolygir cwynion perthnasol i ansawdd yn unol â'r Gweithdrefnau sicrwydd diwygiedig ar gyfer delio â chwynion yn erbyn sefydliadau. Mewn perthynas ag ansawdd, mae CCAUC yn gallu adolygu cwynion ynghylch ansawdd annigonol, neu ansawdd sy'n debygol o ddatblygu i fod yn annigonol. Mae'r diffiniad hwn yn cyd-fynd â gofynion rheoleiddiol sylfaen y Fframwaith. Mae disgwyl i gwynion eraill perthnasol i safonau academaidd a phrofiad academaidd y myfyrwyr gael eu cyfeirio at Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

Ansawdd yn debygol o ddatblygu i fod yn annigonol

3.3.14 Mae gan CCAUC gyfrifoldebau o dan Ddeddf 2015 mewn perthynas â darpariaeth sy'n 'debygol o ddatblygu i fod' yn annigonol. Ystyriodd y PAA sut i ddiffinio'r term hwn a chynghorodd CCAUC ynghylch sut gellid gweithredu yn ei gylch. Roedd yn sail i ymgynghoriad ar y mater, a agorodd ym mis Gorffennaf 2018 a chau ym mis Medi 2018. Gweithredwyd canlyniadau'r ymgynghoriad yn 2018/19

## 3.4 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau

3.4.1 Mae'r adran hon yn datgan canlyniadau'r gweithgareddau o ganlyniad i gyflawni ein swyddogaethau ansawdd i asesu neu wneud trefniadau ar gyfer asesu ansawdd mewn sefydliadau a reoleiddir.

3.4.2 Casgliad canlyniadau'r un adolygiad Gwella Ansawdd a gynhaliwyd ym mis Mai 2018 oedd bod y gofynion ar gyfer sicrwydd ansawdd mewnol a gofynion sylfaenol rheoleiddiol perthnasol yn cael eu bodloni.

3.4.3 Cynhaliwyd dau adolygiad tair blynedd, ym mis Ionawr a mis Mai 2018.

3.4.4 Cafodd CCAUC sicrwydd yn gyffredinol o ganlyniadau'r ymweliad ym mis Ionawr 2018.

3.4.5 Gwnaeth CCAUC nifer o argymhellion yn dilyn ymweliad mis Mai 2018, gyda chyfeiriad penodol at bartneriaeth â myfyrwyr. Roedd canlyniadau ymweliad mis Mai 2018 yn cynnwys y canlynol:

- dylai'r sefydliad adolygu ei gynlluniau ehangu i sicrhau na cheir effaith niweidiol ar brofiad y myfyrwyr,
- dylai'r sefydliad ystyried sut gallai'r diweddariadau i gynnwys myfyrwyr effeithio ar ymgysylltu a phartneriaeth myfyrwyr,
- byddai'r Llywodraethwyr yn elwa o hyfforddiant ychwanegol a gwaith partneriaeth gyda Wise Cymru i gefnogi eu cyfrifoldebau, a
- dylai Undeb y Myfyrwyr ymwneud mwy â'r myfyrwyr er mwyn gallu cynrychioli llais y myfyrwyr.

3.4.6 Yn 2017/18, derbyniodd CCAUC 6 chwyn am ansawdd. Nid aeth yr un gŵyn ymhellach na cham cychwynnol y broses gwyno, am nad oedd y cwynion yn dod o dan ein cylch gwaith ni ar gyfer ymchwiliad. Y rhesymau am hyn oedd nad oedd y cwynion yn dod o dan bwerau statudol CCAUC ar gyfer ansawdd; achwynwyr heb gwblhau gweithdrefnau'r sefydliad ei hun; a materion yn cael eu codi a oedd o dan awdurdodaeth Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol.

## 3.5 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd

3.5.1 Nid oedd unrhyw fethu cydymffurfio â'r system reoleiddiol fel mae'n berthnasol i ansawdd ac, o ganlyniad, ni wnaethom ddefnyddio ein swyddogaethau ymyrryd.

## Adran 4 – Materion Ariannol Sefydliadau a Reoleiddir

### 4.1 Cyflwyniad

4.1.1 Dywed Adran 27(1) Deddf 2015 ei bod yn ofynnol i CCAUC baratoi a chyhoeddi cod perthnasol i sefydlu a rheoli materion ariannol sefydliadau a reoleiddir. Dywed Adran 27(2) 'Gall y Cod wneud darpariaeth ar gyfer y materion canlynol (ymhlith eraill):

a) yr amgylchiadau pan fo sefydliad a reoleiddir yn gwneud trafodiad mewn dosbarth a nodir yn y Cod gyda chaniatâd CCAUC yn unig,
b) trefniadau cyfrifyddu ac archwilio sefydliadau a reoleiddir, a
c) darparu gwybodaeth i CCAUC.'

4.1.2 Dywed Adran 27(4) Deddf 2015 ei bod yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad a reoleiddir wneud y canlynol:

a) cydymffurfio â gofyniad a orfodir gan y Cod, ac
b) ystyried unrhyw gyfarwyddyd a geir yn y Cod.

4.1.3 Mae'r adran hon yn datgan y broses o ddatblygu a gweithredu'r Cod Rheolaeth Ariannol (y Cod) hyd at 31 Gorffennaf 2018.

### 4.2 Datblygu prosesau rheoleiddiol cyn gweithredu

4.2.1 Datblygodd CCAUC y Cod a ystyriwyd gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Chyngor CCAUC. Cynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â'r Cod yn haf 2016. Fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2015, gofynnwyd am safbwyntiau cyrff llywodraethu'r holl sefydliadau a reoleiddir, ac unrhyw bersonau eraill a ystyriwyd yn briodol, o dan broses yr ymgynghoriad hwn. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a'r diwygiadau o ganlyniad a'r cyswllt â swyddogion Llywodraeth Cymru, cyflwynwyd y Cod i Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Addysg ym mis Chwefror 2017 ynghyd ag adroddiad yn datgan crynodeb o'r ymgynghoriad ac yn esbonio'r rhesymau dros y telerau sydd yn y Cod.

4.2.2 Ar ôl cael cymeradwyaeth Ysgrifennydd y Cabinet ar gyfer Addysg, cyflwynwyd y Cod ger bron Cynulliad Cenedlaethol Cymru am gyfnod o 40 diwrnod yn unol ag Adran 30 Deddf 2015. Ni wnaeth y Cynulliad unrhyw benderfyniad yn ystod y cyfnod hwnnw, gan ganiatáu i'r Cod gael ei gyhoeddi gan CCAUC ym mis Mehefin 2017.

### 4.3 Cyflawni swyddogaethau yn 2017/18

4.3.1 Mae'r adran hon yn datgan sut gwnaethom fonitro cydymffurfiaeth â'r Cod yn 2017/18.

4.3.2 Rydym yn cynnal monitro ariannol, gan gynnwys adolygu datganiadau ariannol pob sefydliad a reoleiddir, a'r rhagolygon ariannol manwl. Yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl, dadansoddwyd rhagolygon ariannol ddiwedd yr haf 2017 a datganiadau ariannol ddechrau 2018. Hefyd dadansoddwyd diweddariadau rhagolygon ariannol yng ngwanwyn 2018 fel rhan o broses ymgeisio Cynlluniau Ffioedd a Mynediad 2019/20. Hefyd aeth CCAUC ati i fonitro'r cwynion a dderbyniwyd o dan ei weithdrefnau cwynion am sefydliadau ar gyfer y rhai sydd â dylanwad posib ar gydymffurfio â'r Cod.

4.3.3 Hefyd rydym yn gwneud gwaith adolygu sicrwydd sefydliadol mewn perthynas â phob sefydliad a reoleiddir yng Nghymru. Ffocws yr adolygiadau hyn yw canfod tystiolaeth o gadernid trefniadau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu'r sefydliadau. Rydym yn chwilio am y dystiolaeth hon, yn benodol, drwy'r sicrwydd a'r safbwyntiau sy'n cael eu darparu gan archwilwyr mewnol ac allanol y sefydliadau eu hunain, ac adroddiadau eu Pwyllgorau Archwilio. Mae trafodaethau gyda phersonél allweddol yn y sefydliadau'n rhan hanfodol o'n gwaith adolygu sicrwydd. Hefyd cawsom gyfarfod ag archwilwyr mewnol y sefydliadau. Yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl, cynhaliodd y swyddogion ddau ymweliad adolygu sicrwydd sefydliadol ffurfiol a gynlluniwyd.

4.3.4 Drwy ein proses Adolygu Risg Sefydliadol (ARS), rydym yn cynnal asesiadau risg ffurfiol ddwywaith y flwyddyn o sefydliadau a reoleiddir. Defnyddir gwybodaeth amrywiol o'r ffurflenni data diweddaraf ac ymgysylltu'r Cyngor a swyddogion â sefydliadau i asesu risg pob un yn erbyn chwe maes allweddol - Llywodraethu a Rheoli; Cyllid; Cyfeiriad Strategol; Trosglwyddo Gwybodaeth ac Ymchwil; Myfyrwyr ac Ansawdd; ac Ystadau. Wedyn gwneir asesiad cyffredinol ar gyfer barnu risg sefydliad fel 'Isel', 'Cymedrol' neu 'Uchel'. Mae'r diffiniadau o'r categorïau risg hyn fel a ganlyn:

**Risg isel**: Nid yw'r sefydliad yn debygol o fethu cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol.

**Risg gymedrol**: Mae'r sefydliad wedi methu, neu gall fethu, cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol yn y tymor byr i ganolig, ond nid yw effaith hyn yn arwain at bryderon cynaliadwyedd yn ystod y cyfnod hwnnw.

**Risg uchel**: Mae'r sefydliad wedi methu, neu mae'n debygol o fethu, cydymffurfio â'r Cod Rheolaeth Ariannol yn y tymor byr i ganolig, ac mae effaith hyn yn arwain at bryderon cynaliadwyedd yn ystod y cyfnod hwnnw.

4.3.5 Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd ARS interim gennym yn hydref 2017, gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried y canlyniadau ym mis Rhagfyr 2017 a'r Cyngor yn gwneud hynny ym mis Ionawr 2018. Cynhaliwyd ARS llawn yng ngwanwyn 2018, gyda'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg yn ystyried y canlyniadau ym mis Mehefin 2018 a'r Cyngor yn gwneud hynny ym mis Gorffennaf 2018.

4.3.6 Hefyd, mae'r Cyngor wedi sefydlu cyfres o ymweliadau sefydliadol ffurfiol gydag aelodau'r Cyngor a swyddogion yn ymweld â phob sefydliad unwaith bob tair blynedd o leiaf, gan roi cyfle ychwanegol i drafod materion strategol gyda llywodraethwyr ac uwch reolwyr. Cafodd yr ymweliadau hyn eu hymestyn yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl i gynnwys yr holl sefydliadau a reoleiddir, sy'n cynnwys dau Sefydliad Addysg Bellach. Ymwelwyd â phum sefydliad a reoleiddir yn 2017/18, ac roedd hyn yn cynnwys ymweliadau gan is-setiau o aelodau'r Cyngor â'r ddau Sefydliad Addysg Bellach a reoleiddir.

## 4.4 Canlyniadau gweithgareddau wrth gyflawni swyddogaethau

4.4.1 Mae'r adran hon yn datgan canlyniadau ein monitro ar gydymffurfiaeth â'r Cod yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl.

4.4.2 Drwy fonitro sefyllfa ariannol sefydliadau a reoleiddir yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl, gwelwyd bod y gwarged cyfnerthedig ar gyfer sefydliadau addysg uwch Cymru wedi gostwng o warged o £74.8 miliwn yn 2015/16 i ddiffyg o £16.8 miliwn yn

2016/17. Roedd y gostyngiad hwn yn 2016/17 wedi digwydd yn bennaf oherwydd: cydnabod lefel lawer is o grantiau cyfalaf, o gymharu â'r lefel sylweddol a gydnabuwyd yn 2015/16; ffioedd nam sylweddol yn erbyn asedau un brifysgol; cynnydd mewn ffioedd llog yn adlewyrchu benthyca cynyddol; cynnydd yng nghostau'r staff oherwydd cyflogau/tâl cynyddol a chostau nawdd cymdeithasol ac, i raddau llai, cyfraniadau pensiwn cyflogwr; rhywfaint o ostyngiad yn nifer y myfyrwyr a gafodd eu recriwtio; a llai o incwm grant CCAUC.

4.4.3 Ar lefel sefydliadol, roedd y canlyniadau'n amrywio o ddiffyg o 21.4% i warged o 6.7%. Roedd hyn yn dangos lefel sylweddol o amrywiad ym mherfformiadau ariannol sefydliadau unigol ar draws y sector. Adroddodd pedwar sefydliad am ddiffyg yn 2016/17, o gymharu â thri sefydliad yn 2015/16. Dim ond dau sefydliad adroddodd am warged o 5% neu fwy o gyfanswm incwm.

4.4.4 Cynyddodd y llif arian o weithgareddau gweithredu ryw ychydig, o 6.2 y cant yn 2015/16 i 7.0 y cant o gyfanswm incwm yn 2016/17. Cynyddodd y cronfeydd digyfyngiad o £854 miliwn (56.7 y cant o'r incwm) i £967 miliwn (64.9 y cant o gyfanswm yr incwm); y rheswm am hyn yn rhannol oedd y cyfnerthu, gan rai sefydliadau, ar eu cronfeydd adbrisio i gronfeydd digyfyngiad ac felly nid yw'n adlewyrchiad o gynnydd sylfaenol mewn cronfeydd. Cynyddodd cyfanswm yr asedau net o £1,519 miliwn i £1,572 miliwn.

4.4.5 Cynyddodd y benthyciadau allanol tymor hir, a'r rhwymedigaethau o dan brydlesau cyllid a gostyngiadau gwasanaeth, o 48.4% o'r incwm ar 31 Gorffennaf 2016 i 50.0% ar 31 Gorffennaf 2017. Cynyddodd y credydwyr tymor byr £12 miliwn hefyd yn ystod y flwyddyn, yn gysylltiedig yn bennaf â chynnydd mewn credydwyr yn gysylltiedig ag incwm gohiriedig ar gyfer ymchwil.

4.4.6 Ym mhob achos, roedd adroddiadau blynyddol 2016/17 archwilwyr mewnol y sefydliadau yn cynnwys datganiadau digonol am sicrwydd cyffredinol eu systemau rheoli mewnol, y rheolaeth ar risg a'r llywodraethu i ddangos y gallai'r cyrff llywodraethu ddibynnu ar y systemau hynny, ond nodwyd meysydd mewn sefydliadau lle argymhellwyd rhai gwelliannau.

4.4.7 Canfu gwaith sicrwydd sefydliadol CCAUC amrywiaeth o faterion, a gafodd sylw gyda sefydliadau drwy ymgysylltu manwl drwy gyfrwng y broses ARS (gweler isod). Y tu hwnt i'r materion hynny lle mae CCAUC wedi gweithio gyda sefydliadau drwy'r broses ARS, ni wnaeth gwaith adolygu sicrwydd sefydliadol CCAUC nodi unrhyw feysydd pellach yn ystod 2017/18 a fyddai'n achosi i ni bryderu'n fawr am ddigonolrwydd cyffredinol fframweithiau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y sefydliadau hynny yng nghyd-destun eu cydymffurfiaeth â'r Cod. Bydd unrhyw bryderon sydd wedi codi ers diwedd y cyfnod adrodd yn ôl yn cael sylw yn yr adroddiad nesaf.

4.4.8 Dyma ganlyniadau'r asesiadau ARS a gynhaliwyd gan CCAUC yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl:

- aseswyd dau sefydliad fel rhai â chyswllt Uchel â risg yn gyffredinol,
- aseswyd dau sefydliad fel rhai â chyswllt Cymedrol â risg yn gyffredinol, ac
- aseswyd pedwar sefydliad fel rhai â chyswllt Isel â risg yn gyffredinol.

O ganlyniad i'n hasesiadau risg, aethom ati i gynyddu lefelau'r ymgysylltu â Phenaethiaid ac Uwch Dimau Rheoli'r sefydliadau hynny a nodwyd fel rhai â chyswllt 'Cymedrol' ac 'Uchel' â risg, er mwyn cael sicrwydd bod y materion oedd yn peri pryder i ni'n cael sylw brys a phriodol. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu

rheolaidd â Chyfarwyddwyr Cyllid ar gyfer y sefydliadau hynny a nodwyd fel y rhai risg Uchel er mwyn deall a monitro'r cynlluniau i wella sefydlogrwydd ariannol.

4.4.9 Yn 2017/18, derbyniwyd 3 cwyn gan CCAUC oedd yn cyflwyno honiadau am faterion oedd yn mynd yn groes i'r Cod o bosib. Cafodd CCAUC drafodaeth anffurfiol gyda'r sefydliad perthnasol mewn perthynas â'r materion honedig hyn. O ganlyniad i'r cyswllt hwn, sicrhawyd datrysiad boddhaol ym mhob achos ac nid oedd angen unrhyw weithredu pellach.

## 4.5 Methu cydymffurfio â'r system reoleiddiol ac achosion o ymyrryd

4.5.1 Nid oedd unrhyw achosion o fod angen ymyriad ffurfiol mewn perthynas â methu cydymffurfio, neu debygolrwydd o fethu cydymffurfio, â'r Cod Rheolaeth Ariannol yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl.

## Adran 5 – Datganiad o Ymyriad

5.1 Mae'r adran hon yn datgan y broses ar gyfer datblygu a chyhoeddi'r datganiad o ymyriad dros dro a phontio.

5.2 Daeth swyddogaethau, dyletswyddau a phwerau CCAUC o dan Ddeddf 2015 i rym ar wahanol adegau, gyda nifer o bwerau ymyrryd mewn grym o dan y trefniadau pontio a oedd yn weithredol rhwng 1 Medi 2015 a 31 Awst 2017. Y rhain oedd y darpariaethau yn Neddf 2015, a'r rheoliadau cysylltiedig, mewn perthynas â'r canlynol:

- Cyfarwyddiadau Cydymffurfio ac Ad-dalu i roi sylw i faterion mewn perthynas â chodi gormod o ffioedd;
- Cyfarwyddiadau mewn Perthynas ag Ansawdd Annigonol; a
- Mesurau Eraill mewn Perthynas ag Ansawdd Annigonol.

Daeth y mesurau sy'n weddill o dan Ddeddf 2015 i rym o 1 Medi 2017 ymlaen.

5.3 Datblygodd CCAUC ddatganiad o swyddogaethau ymyrryd CCAUC at ddibenion adran 52 Deddf 2015, i ddarparu fframwaith cyhoeddus a thryloyw i CCAUC weithredu oddi mewn iddo yn ystod y cyfnod pontio nes i Ddatganiad Ymyriad llawn gymryd ei le mewn perthynas â dechrau ar holl bwerau ymyrryd CCAUC. Ystyriwyd y datganiad pontio drafft gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Chyngor CCAUC. Cynhaliwyd ymgynghoriad mewn perthynas â'r datganiad o ymyriad pontio hwn ym misoedd Hydref-Tachwedd 2015. Fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2015, gofynnwyd am safbwyntiau cyrff llywodraethu'r holl sefydliadau a reoleiddir, ac unrhyw bersonau eraill a ystyriwyd yn briodol, o dan broses yr ymgynghoriad hwn. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a'r canlyniadau o ganlyniad, cyhoeddwyd y Datganiad o Ymyriad Pontio ar 4 Chwefror 2016.

5.4 Wedyn datblygodd y swyddogion ddatganiad llawn o swyddogaethau ymyrryd CCAUC at ddibenion adran 52 Deddf 2015 yn rhoi sylw i'r ystod lawn o bwerau ymyrryd CCAUC, gyda'r gweddill i ddod i rym o 1 Medi 2017 ymlaen. Ystyriwyd y datganiad llawn drafft gan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a Chyngor CCAUC a chan gynghorwyr cyfreithiol CCAUC. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Datganiad Ymyriad llawn hwn ym misoedd Gorffennaf-Awst 2016. Fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf 2015, gofynnwyd am safbwyntiau cyrff llywodraethu'r holl sefydliadau a reoleiddir, ac unrhyw bersonau eraill a ystyriwyd yn briodol, o dan broses yr ymgynghoriad hwn. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a'r canlyniadau o ganlyniad, cyhoeddwyd y Datganiad o Ymyriad ar 25 Hydref 2016.

5.5 Bydd Pwyllgor Rheoleiddio CCAUC yn parhau i adolygu'r Datganiad o Ymyriad.

## Adran 6 – Datganiad Sicrwydd

6.1 Mae'r adran hon yn darparu datganiad sicrwydd blynyddol gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC neu'r Cyngor) i Lywodraeth Cymru ar gydymffurfiaeth y sefydliadau a reoleiddir gyda'r system reoleiddiol sydd wedi'i datgan yn Neddf 2015 ac mae'n tynnu sylw at unrhyw feysydd o bryder neu risg. Mae'r datganiad hwn yn cymryd lle'r Datganiad Sicrwydd Llywodraethu Blynyddol mewn perthynas â sefydliadau addysg uwch oedd yn cael ei ddarparu'n flaenorol i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn ariannol.

**Datganiad o Sicrwydd**

6.2 Dywed asesiad y Cyngor bod cydymffurfiaeth y sefydliadau â'r gofynion rheoleiddiol a orfodir gan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, ar draws y sector a reoleiddir, wedi bod yn gyffredinol foddhaol. Os tynnwyd sylw at broblemau penodol yn ystod y cyfnod adrodd yn ôl, mae'r Cyngor wedi mynd ar eu hôl yn fanwl gyda'r sefydliadau dan sylw, fel y nodwyd uchod.